Mwynhau dysgu a llwyddo gyda'n gilydd.

# Ysgol Carreg Emlyn

Clocaenog, Rhuthun, Sir Ddinbych, LL15 2AY

Tel: Clocaenog 01824 750636 Cyffylliog 01824 710274

ysgol.carreg.emlyn@sirddinbych.gov.uk

www.ysgolcarregemlyn.cymru

@carregemlyn

## Newyddion 29//1/18 News

### Seren yr Wythnos

Llongyfarchiadau i Owen, Wil, Ana, Elain ac Ela am ddyfalbarhau yr wythnos yma / *for persevering this week*





### URDD

Cofiwch ddychwelyd y ffurflen i adael i ni wybod os ydy eich plentyn am gystadlu yn unigol yn Eisteddfod yr Urdd **cyn diwedd yr wythnos** os gwelwch yn dda. Bydd angen i ni gofrestru pawb erbyn **Chwefror 5ed** ac os nad ydy'r plant yn cael eu cofrestru fyddan nhw ddim yn cael cystadlu. *Please return the form to let us know if your child wishes to compete individually in the Urdd Eisteddfod* ***by the end of the week****. We will need to register everyone that wish to compete* ***by February 5th****. If children are not registered for the competition they will not be allowed to compete,*

### Dyddiadau i'w Cofio
### *Dates for your Diary*

**29-31/1/18** Trip Bl 5 a 6 i Gaerdydd / *Yr 5 & 6 visit to Cardiff*
**30/1/18** Clwb yr Urdd CA2 / KS2 Urdd Club
**1/2/18** Bl 1 a 2 Clwb Celf yr Urdd *Craft Club Yr 1 & 2* – **Grwp 1**
**5/2/18** Noson wobrwyo Ysgolion Iach a chyfle i ddysgu mwy am yr adeilad newydd. *Healthy Schools Award Presentation and chance to learn more about the new school building project. Canolfan Cae Cymro 6pm*
**6 & 20 & 27/2/18** Clwb yr Urdd CA2 / KS2 Urdd Club
**8/2/18** Bl 1 a 2 Clwb Celf yr Urdd *Craft Club Yr 1 & 2* – **Grwp 2**
**9/2/18** Ysgol yn cau dros hanner tymor / *School closes for half term.*
**19/2/18** Ysgol yn ail agor / School open
**22/2/18** Bl 1 a 2 Clwb Celf yr Urdd *Craft Club Yr 1 & 2* – **Grwp 1**
**24/2/18** Eisteddfod yr Urdd Cylch Rhuthun / *Ruthin Area Urdd Eisteddfod* Ysgol Brynhyfryd.
**1/3/18** -Bl 1 a 2 Clwb Celf yr Urdd *Craft Club Yr 1 & 2* – **Grwp 2**
**6 & 13/3/18** Clwb yr Urdd CA2 / KS2 Urdd Club
**17/3/18** Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych / *Denbighshire Urdd Eisteddfod* – Rhuthun
**23/3/18** Cau dros y Pasg / *Close for Easter Holiday.*

### Celf yr Urdd Craft

Cofiwch fod posib i'r plant wneud gwaith celf adref tuag at Eisteddfod yr Urdd. Dyddiad y gystadleuaeth fydd Mawrth 15ed ac felly mae digon o amser i wneud y gwaith. Y thema eleni ydi CHWEDLAU. Dyma linc i'r wybodaeth: http://www.urdd.cymru/cy/eisteddfod/cystadlu/gwaith-cartref/celf-dylunio-thechnoleg/
*A reminder that children can do craft work at home to compete in the Urdd Eisteddfod.* The date of the competition is March 15th and therefore there is lots of time to complete the work. The theme this year is LEGENDS. Here is a link to the details. http://www.urdd.cymru/en/eisteddfod/competitions/home-work/art-design-and-technology/

## Noson Ddathlu Gwobr Ysgolion Iach a Cyfle i Ddysgu Mwy am yr Ysgol Newydd

## *A Healthy Schools Presentation Evening and a Chance to Learn More about the New School*

**Nos Lun Chwefror 5ed fe'ch gwahoddir chi i gyd i Ganolfan Cae Cymro, Clawddnewydd am 6pm i ddathlu ein bod wedi cael Gwobr Cenedlaethol Ysgolion Iach. Bydd plac arbennig yn cael ei gyflwyno i'r ysgol a bydd plant Bl 2 a grwp o blant o CA2 yn rhoi cyflwyniad i chi am waith Ysgolion Iach yn yr ysgol. Yn dilyn hyn bydd cyfle i bawb gael lluniaeth ysgafn Masnach Deg ac fe fydd Cwmni Adeiladu Wynne yno i ddangos cynlluniau o'r ysgol newydd ac i ateb unrhyw gwestiynnau. Gobeithio gweld rhieni a phlant yr ysgol i gyd yn yr achlysur. *On Monday February 5th all pupils and parents are invited to Canolfan Cae Cymro at 6pm to celebrate our achievement on getting the National healthy Schools Award. A special plaque will be presented to the school and Yr 2 pupils and a group of KS2 pupils will be giving a presentation about the work that the school has done to win this award. To follow there will be Fair Trade refreshments and Wynne Construction Company will be there to show you all plans of the new school and to answer any questions you may have about the project. We hope to see all parent and children at the event.***

### Bl 4 – 6 COGURDD Yr 4 - 6

**Os ydy eich plentyn am gystadlu yng nghystadleuaeth Cogurdd eleni a wnewch chi adael i ni wybod erbyn CHWEFROR 5ed gan y bydd angen i ni gofrestru yr enwau erbyn hynny. Bydd gwybodaeth am y gystadleuaeth yn cael ei ebostio gyda'r Cylchlythyr yma. Bydd y rownd gyntaf yn yr ysgol ar ddechrau mis Mawrth. *If you would like your child to compete in the Cogurdd cookery competition this year could you please let the school know by FEBRUARY 5th as we will need to register the children on line by this date. Information about the competition will be emailed with the newsletter. The first round will be in school at the beginning of March.***



### *Trip i Gaerdydd / Cardiff Visit*

Bydd Miss Einir Jones a Mr Evans yn mynd gyda'r plant i Gaerdydd yr wythnos yma. Bydd Mrs Ellis yn gyfrifol am Safle Clocaenog a Miss Hughes yn gyfrifol am Safle Cyffylliog. *Miss Einir Jones and Mr Evans will be accompanying Yr 5 and 6 to Cardiff this week. Mrs Ellis will be in charge of the Clocaenog Site and Miss Hughes will be in charge of the Cyffylliog Site during this time.*

### *Sêr y Sgrin / TV Stars*

Cafodd Miss Jones, Elain, Pippa a Tomos eu ffilmio yr wythnos diwethaf ar gyfer rhaglen ar sianel Made in North Wales (Freeview 8) – welsoch chi nhw ar y teledu? Buont yn siarad am y wobr Ysgolion Iach Cenedlaethol. Da iawn chi am siarad mor dda blant! Mae'r linc ar Trydar/gwefan yr ysgol. *Miss Jones, Elain, Pippa and Tomos were filmed last week for a programme on Made in North Wales channel (Freeview 8) - did you see them? They were talking about the Healthy Schools award that the school has won recently. Well done for speaking so well children! The link is on Twitter / School website.*



### Neges gan Y Cyngor Ysgol

### *Message from the School Council*

Annwyl Bawb.

Rydym eisiau gwybod beth yr hoffech chi gael ar fuarth chwarae ein hysgol newydd. Chwiliwch am syniadau ar y we, mewn cylchgronnau neu mewn ysgolion eraill. Ebostiwch eich syniadau i Leah ysgrifennydd Y Cyngor Ysgol trwy ebost yr ysgol neu dewch a'ch syniadau iddi hi ar bapur. Byddwm yn casglu eich syniadau ac yn adrodd yn ôl i Miss Jones. Gobeithio y cawn llawer o syniadau arbennig!

*Dear Everyone.*

*We would like to know what you want to have on the new school yard. Look for ideas on the internet, in magazines or in other schools. Email your ideas to Leah the School Council Secretary through the school email address or hand it in to her on paper. We will be collecting your ideas and reporting back to Miss Jones. We hope you have amazing ideas!*

*Diolch / Thank you*

Gwion - Is Gadeirydd Cyngor Ysgol
School Council Vice Chairman

### *PC Heledd*

Bu PC Heledd yn siarad gyda Bl 1 a 2 ynglyn a beth sy’n gywir ac anghywir yr wythnos diwethaf.
Last week PC Heledd came to talk to the Yr 1 & 2 children about right and wrong.








### Diwrnod Coch, Gwyn a Gwyrdd.
### Red, White and Green Day

Dydd Gwener diwethaf cafodd pawb gyfle i ddod i’r ysgol wedi gwisgo mewn coch, gwyn a gwyrdd a rhoi cyfraniad tuag at Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Sir Ddinbych 2010. Casglwyd £95 at yr achos. Diolch yn fawr i chi gyd am eich cefnogaeth. Last *Friday the children came to school wearing red, green and white and we raised £95 towards The Urdd National Eisteddfod which will be held in Denbighshire in 2020. Thank you all for your support.*

Cariad@yrUrdd
26/01/18




***Noson Santes Dwynwen Evening***

Diolch i Gyfeillion yr Ysgol am drefnu Noson Santes Dwynwen ardderchog – roedd y plant i gyd wedi mwynhau yn fawr! *Thanks to the Friends of the School for organising a wonderful Santes Dwynwen Evening – all the children enjoyed themselves immensely!*